# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2223 |
| Committee | Pwllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Date | 03/11/2020 |
| Attendees | Cynghorwyr Haydn Trollope (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John C. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Aelod Pwyllgor)<br>Mr. Tim Baxter (Co-Optee)<br>Mr. Alun Williams (Co-Optee)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Gavin Metheringham (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Michelle Jones (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Anne-Louise Clark (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Damien McCann (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Cynghorwyr Joanne Collins (Notify) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2769 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |

| | |
|---|---|
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2770 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr G. Collier ac L. Elias.<br><br>**Aelod Cyfetholedig**<br>A. Williams |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2771 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Datganodd y Cynghorwyr Wayne Hodgins a Lee Parsons fuddiant yn Eitem 9 – Canlyniad yr Adolygiad Hamdden a Monitro Perfformiad Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2854 |
| Item Title | Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 15 Medi 2020.<br><br>Dywedodd Aelod y cafodd dau bwynt eu gadael allan o'r cofnodion blaenorol:<br>• Diweddariadau rheolaidd am COVID-19 o fewn Addysg a'r Fwrdeistref Sirol.<br>• Profion COVID-19 rheolaidd ar gyfer athrawon.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg y byddai'n trin y materion hyn dan eitem 10 Ymateb y Gyfarwyddiaeth Addysg i COVID-19.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2929 |
| Item Title | Dalen Weithredu – 15 Medi 2020 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 15 Medi 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r ddalen weithredu. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2928 |

| | |
|---|---|
| Item Title | Blaenraglen Gwaith – 15 Rhagfyr 2020 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu.<br><br>Siaradodd y Cadeirydd am yr adroddiad a gwahoddodd sylwadau gan aelodau.<br><br>**<u>Rheoli Lleoedd Disgyblion a'r Stad Ysgolion 2019/20</u>**<br><br>Gofynnodd Aelod am i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am ysgolion gyda nifer cynyddol o leoedd gwag. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg y byddai'r adroddiad yn canolbwyntio ar leoedd gwag a hefyd lle mae problemau digonolrwydd mewn ysgolion.<br><br>**<u>Gwella Ysgolion</u>**<br><br>Yng nghyswllt gwella ysgolion, holodd Aelod os y byddai'r adroddiad yn cynnwys yr holl wybodaeth a dialog i edrych sut mae ysgolion yn gwella. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg y byddai'r adroddiad yn cynnwys ysgolion sy'n achos pryder ac y caiff Aelodau eu hysbysu'n llawn am y cynnydd a wneir.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2; sef cymeradwyo Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu ar gyfer y cyfarfod ar 15 Rhagfyr 2020.<br><br>Gadawodd Tim Baxter, Aelod Cyfetholedig, y cyfarfod ar y pwynt hwn.. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 2930 |
| Item Title | Deilliannau 2019-2020: Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg a Chyfarwyddwr Cynorthwyol EAS a gyflwynwyd i hysbysu Aelodau am drefniadau adrodd perfformiad ysgolion Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-2020, rhoi trosolwg o'r deilliannau cenedlaethol fel cyd-destun a rhoi data lleol dienw lle mae ar gael.<br><br>Siaradodd Cyfarwyddwr Corfforaethol EAS am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo a hysbysodd Aelodau bod Llywodraeth Cymru oherwydd y pandemig wedi canslo pob casglu data statudol ar y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 ac wedi llacio'r trefniadau adroddiadau gan ysgolion i awdurdodau lleol fel nad oedd y data yr un fath ag mewn blynyddoedd blaenorol.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am hen ddata, dywedodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol EAS mai'r rheswm pam nad oedd unrhyw ddiweddariad cyfredol i'r data hwn oedd oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi gohirio'r prosesau ar gyfer rhannu'r data hwnnw yn ô i awdurdod lleol. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd Aelod fod y ffigurau yn yr adroddiad yn rhoi peth gwybodaeth ar gyfer y dyfodol a theimlai fod angen gwella gwyddoniaeth yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd. Mynegodd bryderon nad oedd disgyblion wedi medru sefyll arholiadau yn yr haf ac y gallai hynny ddigwydd eto y flwyddyn nesaf a gofynnodd os byddai cymorth ychwanegol ar gael ar gyfer disgyblion pan fyddant yn sefyll arholiadau lefel A mewn dwy flynedd. Cytunodd Cyfarwyddwr Corfforaethol EAS gyda sylwadau'r Aelod fod dysgwyr ar eu colled drwy beidio sefyll arholiadau ac y byddai dysgwyr angen cymorth ychwanegol gan ysgolion, hyd yn oed os yw ysgolion ar gau dros dro ac y byddid yn rhaid defnyddio dysgu o bell a dysgu cyfunol naill ai gyda'r ysgol gyfan neu garfannau bach o fewn yr ysgol wrth iddynt hunanynysu Roedd llesiant dysgwyr yn flaenoriaeth i'w hailgysylltu gyda dysgu.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo 2, sef derbyn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd. |

| Item ID | 2931 |
|---|---|
| Item Title | Crynodeb o Ddeilliannau Arolygon Sefydliadau Addysgol – Tymor yr Hydref 2019 a Thymor y Gwanwyn 2020 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg a'r Rheolwr Strategol Gwella Addysg a gyflwynwyd i roi gwybodaeth bwysig i Aelodau ar fonitro perfformiad parthed yr arolygiadau a gynhaliwyd gan Estyn o sefydliadau addysgol.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Strategol Gwella Addysg am yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o'r tair ysgol a gafodd arolwg gan Estyn:<br>• Ysgol Sylfaen Brynmawr<br>• Ysgol Gynradd Cwm<br>• Ysgol Gymraeg Bro Helyg<br><br>Dywedodd Aelod i'r ddwy ysgol gynradd gael adroddiadau da ond cododd bryderon difrifol parthed Ysgol Sylfaen Brynmawr yng nghyswllt diffygion pwysig yn arbennig mewn llythrennedd a rhifedd ac rheoli arweinyddiaeth. Dywedodd Prif Gynghorydd Her EAS mai'r pethau allweddol sylweddol yn yr adroddiad oedd arweinyddiaeth ac addysgu a dysgu. Cafodd arweinyddiaeth ei gryfhau'n sylweddol yn yr ysgol, mae'r Pennaeth wedi penodi Dirprwy Bennaeth a dau Bennaeth Cynorthwyol ychwanegol. Bu diffyg mewn dysgu proffesiynol ond hysbysodd Aelodau fod yr ysgol wedi parhau i gysylltu gyda EAS drwy ddysgu proffesiynol drwy gydol y pandemig. Mae'r ysgol wedi ymgysylltu gyda Rhaglen Genedlaethol Datblygu Arweinyddiaeth Ganol ar gyfer yr holl arweinwyr canol a defnyddir ei arweinwyr uwch fel rhan o'r tîm hwyluso ac mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo. Rhoddodd sicrwydd i Aelodau fod gan Ysgol Sylfaen Brynmawr gynllun dysgu cadarn iawn ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol ac y caiff ei rannu'n rhanbarthol. Mae'n bwysig i Aelodau wybod fod cyfarfodydd wedi parhau gyda'r ysgolion sy'n achosi pryder i sicrhau gwerthusiad effeithlon o'r gwaith yn y fan a'r lle ac i ddynodi anghenion dysgu proffesiynol. |

| | |
|---|---|
| | Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg y cynhaliwyd sesiynau SCC gydag Ysgol Sylfaen Brynmawr ac ysgolion eraill yn achosi consyrn. Cafodd arweinyddiaeth yn yr ysgol ei gryfhau ond teimlai y byddai'n cymryd amser i welliannau gael effaith yn yr ysgol a byddai'n diweddaru Aelodau ar y cynnydd.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am ddiffyg dqarpariaeth llyfrgell yn yr ysgol, dywedodd y Cyfarwyddwr Interim Addysg bod ysgolion nad oedd ganddynt lyfrgell 'arferol' gweithredol ond nad oedd dysgwyr dan anfantais gan fod ganddynt fynediad i'r ddarpariaeth hon naill ai drwy ofodau tawel neu drwy ddulliau digidol.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd Cook y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at raglen garlam darllen a theimlai ei bod yn fanteisiol i lesiant dysgwyr gael ystafell ddiogel dawel i ddarllen a dal llyfr go iawn.<br><br>Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg bod cyfleoedd eraill o fewn ysgolion i sicrhau fod gan ddysgwyr amgylcheddau mewn ysgol oedd yn addas ar gyfer cyfnodau grwpiau bach, ac y byddir yn symud ymlaen â hyn yn rhaglen Ysgolion Ysgol y 21ain Ganrif. Byddai Ysgol Sylfaen Brynmawr yn brosiect blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad fel rhan o raglen Band B.<br><br>Cefnogodd y Prif Gynghorydd Her sylwadau'r Cyfarwyddwr a dywedodd er nad oedd gan Ysgol Sylfaen Brynmawr lyfrgell penodol, ei bod yn defnyddio'r adnoddau hynny yn eang ar draws yr ysgol ac mewn ystafelloedd dosbarth. Sicrhaodd Aelodau fod yr ysgol fel rhan o'u cynllunio datblygu yn dod â rhaglen garlam darllen i'r ysgolion fel rhan o'r gwaith ymyriad o amgylch llythrennedd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd. |

| Item ID | 2932 |
|---|---|
| Item Title | Canlyniad yr Adolygiad Hamdden a Monitro Perfformiad Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin |
| Summary | Datganodd y Cynghorwyr Wayne Hodgins a Lee Parsons fuddiant yn yr eitem ddilynol.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg a gyflwynwyd i roi diweddariad i Aelodau ar ganlyniad yr adolygiad o'r Ymddiriedolaeth Hamdden.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid am yr adroddiad a thynnodd sylw at y prif bwyntiau ynddo. Hysbysodd Aelodau am ganlyniad yr |

| | |
|---|---|
| | adolygiad o'r Ymddiriedolaeth Hamdden ac egluro bod y swyddogaeth cleient yn awr wedi'i halinio o fewn y portffolio Addysg. Mae hefyd gyfle i Aelodau graffu ar y trefniadau monitro a gynigir ar gyfer y dyfodol i Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd Clive Meredith y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Holodd y Cadeirydd am drosglwyddo asedau i Theatr Metropole yn Abertyleri. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid y cafodd y broses ei gohirio oherwydd y pandemig ac y disgwylir y byddai'n digwydd erbyn mis Ebrill 2021.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am y Metropole, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid ei fod ar hyn o bryd mewn sefyllfa ddal gan yr Ymddiriedolaeth. Roeddent wedi gwneud cais llwyddiannus i Gyngor y Celfyddydau, sy'n awr yn ariannu'r holl weithlu yn y Metropole tan ddiwedd mis Mawrth.<br><br>Holodd Aelod os caiff unrhyw gyfleusterau y bwriedir eu cau yn y dyfodol eu hadrodd i'r Pwyllgor, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg y byddid yn cyflwyno adroddiad cynnydd misol i'r Pwyllgor hwn fel rhan o'r argymhelliad ac y byddai'n cynnwys unrhyw oblygiadau yn gysylltiedig gyda COVID-19 ar ddarpariaeth hamdden ar draws y Fwrdeistref Sirol. Bu goblygiadau ariannol yn gysylltiedig gyda cholli incwm, fodd bynnag mae'r Ymddiriedolaeth Hamdden yn adrodd ac yn rheoli eu colled incwm drwy ostwng gwriant yn gysylltiedig gyda goblygiadau staffio a ffyrlo ac yn y blaen. Teimlai nad oedd unrhyw reswm ar hyn o bryd i fod yn trafod posibilrwydd colli gwasanaethau.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at weithgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen blaenorol ar lyfrgelloedd lle mai un o'r argymhellion oedd defnyddio'r llyfrgelloedd fel hybiau cymunedol a holodd os y gwnaethpwyd hynny. Dywedodd y Cyfarwyddwr Interim Addysg fod darparu hybiau cymunedol ar draws y Fwrdeistref Sirol yn bendant iawn yn rhan o'r agenda strategol allweddol. Byddai manteision o safbwynt defnyddwyr a hefyd safbwynt y llyfrgell i sicrhau y caiff y ddarpariaeth ei diogelu yn y dyfodol. Mae llyfrgelloedd ar gael yng nghanol y rhan fwyaf o'r trefi ac yn cefnogi anghenion y gymuned, mae hefyd botensial ar gyfer datblygiadau digidol a defnyddio setiau sgiliau staff tebyg i gefnogi pobl yng nghyswllt darparu ceisiadau Refeniw a Budd-daliadau ac yn y blaen. Teimlai mai dyma'r dull gweithredu cywir a hysbysodd Aelodau fod gwaith yn mynd rhagddo i fanteisio ar y gosodiadau cymunedol hynny.<br><br>Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid gyda sylwadau'r Cyfarwyddwr a dywedodd fod yr Ymddiriedolaeth yn cwrdd bob bythefnos gyda'r Cyngor i ddatblygu'r dull gweithredu hwn a bod pob llyfrgell yn cael ei ystyried.<br><br>Dywedodd Aelod fod darpariaeth swyddfa'r post unwaith yr wythnos yn y llyfrgell yn ei Ward. Dywedodd y Cyfarwyddwr Interim Addysg fod hyn yn |

| | |
|---|---|
| | enghraifft wych o sut y gallai hyb cymunedol weithio pan mae wedi'i gyd-leoli gyda darpariaeth llyfrgell.<br><br>Holodd y Cadeirydd am drefniadau adrodd. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Interim Addysg, ynghyd ag adroddiadau cynnydd 6 misol, y gall adroddiadau eraill gael eu cyflwyno drwy eithriad i'r Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn diweddariad yr adroddiad a chynigion ar drefniadau adrodd y dyfodol. |

| Item ID | 2933 |
|---|---|
| Item Title | Cyfarwyddiaeth Addysg – Ymateb i COVID-19 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar ymateb y Gyfarwyddiaeth Addysg i sefyllfa COVID-19, yn arbennig yn cefnogi ysgolion yn ystod y cyfnod argyfwng.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo. Cyflwynwyd diweddariad llafar i Bwyllgor mis Medi; fodd bynnag mae'r adroddiad hwn yn rhoi mwy o gyd-destun cefndirol a golwg gyfredol ar yr ymateb.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am brofi staff ysgol bod tri dull o brofi:-<br>1. Porth Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan am fynediad i brofion.<br>2. Protocol profi staff o fewn yr awdurdod lle gall ysgolion ac aelodau unigol o staff hunangyfeirio am brofion yn ddyddiol, gyda blaenoriaeth mynediad i ganolfannau profi yn cynnwys Rodney Parade yng Nghasnewydd.<br>3. Opsiwn Tîm Rheoli Digwyddiad gyda chynrychiolaeth o Iechyd Cyhoeddus Cymru i edrych ar glystyrau sylweddol neu achosion posibl fel canlyniad i drosglwyddo seiliedig mewn ysgolion.<br><br>Mae prosesau effeithlon yn eu lle i sicrhau y gall staff gael mynediad prydlon i brofion. Mae'r protocol profion staff a gyflwynwyd drwy Argyfyngau Sifil Posibl yn sicrhau fod mynediad i brofion ar yr un dydd ag atgyfeirio. Bu'r broses yn gyflym ac yn effeithlon iawn hyd yma. Sicrhaodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg yr Aelodau fod pob ysgol wedi cael asesiadau risg diogel o ran Covid, a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd pan ddynodir achosion positif o fewn ysgolion.<br><br>Holodd Aelod am y cyfraddau trosglwyddo uchel o fewn y gymuned a pha fesurau sydd ar waith i atal trosglwyddo ar adegau dechrau a gorffen ysgolion. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod gan bob ysgol fesurau cadarn yn eu lle yn cynnwys protocol ymwelwyr. Mae ymgysylltu gyda rhieni yn mynd rhagddo un ai'n rhithiol neu dros y ffôn a chyfyngir mynediad i ysgolion os nad yw'n hollol hanfodol. Rhoddwyd llawlyfrau a |

chanllawiau i rieni a threfnu dechrau am yn ail a systemau un ffordd mewn rhai safleoedd. Mae mesurau effeithlon yn eu lle i gyfyngu ymgysylltu â rhieni ar y safle ac i sicrhau fod rhieni yn symud i ffwrdd o'r safle myn brydlon wrth ddod â disgyblion i'r ysgol a'u casglu oddi yno. Mae tîm Cyfathrebu y Cyngor yn cefnogi ysgolion gyda negeseuon allweddol rheolaidd i rieni a chodi ymwybyddiaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod parthed diweddariad ar PPE, sicrhaodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg yr Aelodau nad oedd unrhyw broblemau gyda phrinder PPE mewn unrhyw osodiad. Bu prinder cenedlaethol mewn cynhyrchu a dosbarthu menig yng nghamau cynnar y pandemig ond roedd y Gyfarwyddiaeth wedi cynllunio a rheoli dyraniad a dosbarthiad PPE yn effeithlon ar gyfer pob safle ysgol ac ni effeithiwyd yn negyddol ar unrhyw ysgol.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Interim Addysg y derbyniwyd peth cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gorchuddion wyneb ar gyfer disgyblion, fodd bynnag nid oedd y cyllid yn ddigonol i dalu am gost dau orchudd wyneb i bob disgybl ac mae'r Gyfarwyddiaeth wedi ychwanegu cyllid.

Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod dosbarthiad gorchuddion wyneb wedi ei seilio ar argaeledd. Disgwylir ail ddosbarthiad yn fuan a dylai pob disgybl uwchradd gael o leiaf ddau orchudd wyneb ar gyfer gweddill tymor yr hydref gyda dau orchudd wyneb ychwanegol yn cael eu dosbarthu yn nhymor y gwanwyn.

Gofynnodd Aelod os yw darparwyr cludiant yn cadw cofnodion dyddiol o deithiau disgyblion i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r strategaeth profi, olrhain a diogelu. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod hyn yn parhau a chaiff yr holl ddata gan ddarparwyr cludiant ei logio. Defnyddir y data yma fel rhan o'r broses olrhain cysylltiadau ar gyfer achosion positif mewn ysgolion, mae hapwiriadau a gwiriadau sicrwydd ansawdd am yr wybodaeth i edrych ar welliannau i gofnodi data a gwybodaeth o fewn y ddarpariaeth cludiant.

Cododd Aelod bryderon am brofion staff gan eu bod ar y llinell flaen a theimlai y dylai staff gael cyfle i gael profion o leiaf unwaith y mis. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg y byddai profion rheolaidd yn groes i bolisi Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dim ond os yw staff yn dangos symptomau y dylid defnyddio profion. Fodd bynnag, o safbwynt staffio os oes pryderon sylweddol am achosion posibl gallai'r Gyfarwyddiaeth ddechrau ymateb Tîm Rheoli Digwyddiad ac edrych ar ddull gweithredu felly. Ond ar hyn o bryd ni allai'r Gyfarwyddiaeth gynnig profion rheolaidd os nad yw staff yn dangos symptomau neu os oedd goblygiadau posibl ar iechyd cyhoeddus.

Gofynnodd y Cadeirydd os oes effaith ar ddigwyddiadau trais yn y cartref gyda chynnydd addysg gartref. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod nifer addysg ddewisol yn y cartref (EHE) yn 54 yn nhymor yr haf, roedd hynny wedi cynyddu gan 28 dysgwr ers mis Medi a chedwir golwg agos ar hyn.

| | |
|---|---|
| | Yng nghyswllt trais yn y cartref, sicrhaodd Aelodau fod Operation Encompass wedi parhau drwy gydol y cyfnod argyfwng.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwella Addysg Strategol y bu cynnydd yn nifer ac amlder digwyddiadau yn ymwneud â disgyblion unigol a'u bod wedi parhau i fonitro'r sefyllfa yn ystod trefniadau y cyfnod clo. Cadarnhaodd y rhoddir diweddariad i gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Diogelu fel rhan o'r adroddiad perfformiad.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd Wayne Hodgins y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Dywedodd Aelod, gyda chynnydd yn y gyfradd trosglwyddo, y dywedwyd wrth nifer o blant a phobl ifanc i hunanynysu nad oeddent yn cadw at y canllawiau a holodd os yw'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn cydlynu gyda Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu am y materion hyn. Roedd y Cyfarwyddwr Interim Addysg wedi llunio gohebiaeth at bob rhiant yn y fwrdeistref sirol yn tynnu sylw at y sefyllfa bresennol yn nhermau COVID-19. Mae'r ohebiaeth yn cynnwys cais i rieni ystyried cydymffurfiaeth gyda'r rheoliadau am COVID-19, os oedd diffyg cydymffurfiaeth mewn safle heblaw ysgol, yn arbennig lle mae disgyblion yn yn hunanynysu, byddai hynny'n cael effaith ar osodiadau ysgol. Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi cadarnhau pwysigrwydd cydymffurfiaeth gyda rheoliadau y cyfnod clo byr cenedlaethol yn arbennig mewn safleoedd tu allan i'r ysgol.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod y Gyfarwyddiaeth wedi gweithio gyda chydweithwyr yn Iechyd yr Amgylchedd, y Gwasanaeth Ieuenctid a'r Heddlu lle dynodwyd problemau gyda diffyg cydymffurfiaeth er mwyn gweithredu a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau neilltuol i gyfyngu'r effaith ar ysgolion. Cafodd dogfennau eu cryfhau i dynnu sylw at y cyfnodau hunanynysu a rhoi eglurdeb am oblygiadau posibl am ddiffyg cydymffurfiaeth.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd Bob Summers y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid yr Aelodau y defnyddiwyd y Gweithwyr Ieuenctid arferol i weithio fel Timau Datgysylltiedig yn y trefi gan weithio'n agos gyda'r heddlu. Dywedodd fod pobl ifanc gan bennaf yn cydymffurfio â'r cyfnod clo ac yn deall y canlyniadau o dorri rheolau. Gofynnodd i Aelodau gysylltu â hi'n uniongyrchol os oedd unrhyw broblemau mewn ardal neilltuol.<br><br>Yng nghyswllt diogelwch disgyblion yn ymwneud a grwpiau'n ymgynnull a chael effaith negyddol ar redeg ysgolion, dywedodd y Rheolwr Strategol Gwella Ysgolion y gallai'r Gyfarwyddiaeth gynnal cyfarfod Ysgolion Diogelach y gellid ei alw dan y Ddeddf Troseddu ac Anrhefn gyda golwg ar roi cynllun priodol yn ei le ar gyfer y gosodiad neilltuol hwnnw.<br><br>Cododd y Cadeirydd bryderon am gyfraddau trosglwyddo yng nghyswllt ieuenctid yn ymgynnull tra roeddent yn disgwyl canlyniadau profion, a dywedodd y cynhaliwyd cyfarfod rhithiol gyda'r Heddlu yng nghyswllt |

| | |
|---|---|
| | ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br><br>Ategodd Aelod arall bryderon am rieni heb fod yn dilyn cyngor y Cyngor a'r ysgolion yng nghyswllt hunanynysu eu plant. Roedd achosion o bobl yn dod ynghyd dan do a theimlai fod angen i rieni fod yn gyfrifol i osgoi lledaenu heintiau i ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Interim Addysg y cafodd y materion hyn eu trafod yn Gold Command ond nad oedd ganddynt fawr neu ddim ddylanwad uniongyrchol dros broblemau diffyg cydymffurfiaeth rhieni a chymunedol. Lle mae gwasanaethau yn gwybod am broblemau diffyg cydymffurfiaeth megis grwpiau yn ymgynnull neu ddiffyg pellter cymdeithasol, gellid hysbysu Iechyd yr Amgylchedd am y problemau hyn a byddid hefyd yn cael eu riportio i'r Heddlu lle mae rheolau'n cael eu torri.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid fod timau Ieuenctid allan yn y gymuned yn hysbysu pobl ifanc am yr hyn a ddisgwylir ganddynt ac yn gweithio'n agos gyda'r heddlu mewn cymunedau.<br><br>Ychwanegodd y Cadeirydd y cafodd nifer o ddigwyddiadau eu riportio i'r Heddlu, galwyd y frigâd dân allan ddwywaith a tharfwyd ar ddosbarth ar gyfer plant awtistig ym Mharc Bedwellte, ond derbyniodd fod y Cyngor yn gwneud popeth yn ei allu i drin y materion hyn.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg eu bod yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, Diogelwch Cymunedol a'r Heddlu pan gaiff materion eu riportio ac y caiff hyn ei ddilyn gydag ymweliad Iechyd yr Amgylchedd gyda rhieni. Mae Iechyd yr Amgylchedd hefyd yn edrych ar weithredu gorfodaeth posibl lle mae risgiau sylweddol i iechyd cyhoeddus oherwydd nad yw pobl yn cydymffurfio gyda'r gofynion hunanynysu. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau fod y cyhoedd yn cydymffurfio gyda'r canllawiau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2; sef bod Aelodau yn craffu ar yr wybodaeth a fanylir o fewn yr adroddiad ac yn argymell i'r Pwyllgor Gweithredol fod y Gyfarwyddiaeth yn parhau i weithio'n agos gyda phob sefydliad, ysgolion a'r heddlu i atal COVID-19. |